Dathlu'r Gymraeg
www.dathlu.org

Hendre
4 Pantbach
Pentyrch
Caerdydd
CF15 9TG

Ffôn: 029 20890040

cadeirydd@dathlu.org

9 Medi 2014

**Tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Medi 2014**

Mae Dathlu’r Gymraeg o’r farn fod angen i’r Cynulliad sicrhau fod cyfran deg o wariant y Llywodraeth yn cael ei glustnodi i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd Safonau'r Gymraeg yn cael eu gweithredu yn ystod 2015 ac mae angen i holl adrannau’r Llywodraeth ystyried clustnodi cyllid ar gyfer sicrhau fod y Safonau yn cael eu gweithredu yn gywir a bod yr holl wasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a’i asiantaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cred Dathlu’r Gymraeg fod angen rhagor o adnoddau i sicrhau ffyniant i’r Gymraeg dros y blynyddoedd i ddod. Hefyd dylid arallgyfeirio gwariant presennol i sicrhau cyfran deg i ddatblygu a chryfhau cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg.

Mae’r Llywodraeth wedi gwneud camau bach i wynebu her canlyniadau Cyfrifiad 2011 ond mae angen buddsoddiadau pellach i roi statws a chyfle teg i’r iaith.

Nid yw Cyllideb bresennol y Llywodraeth yn dangos yn glir yr arian a glustnodir ar gyfer Hybu’r Gymraeg. Credwn fod y cyllid hynny wedi gostwng yn arbennig ym maes Cymraeg i Oedolion.

Mae’r Prif Weinidog wedi cymryd cyfrifoldeb am bortffolio y Gymraeg a chredwn y dylid dangos y gyllideb sy’n cael ei weithredu gan y portffolio ar wahân i gyllideb yr Adran Addysg.

Credwn hefyd fod angen cynnydd sylweddol yn yr arian sydd yng nghyllideb y Gymraeg. Gellid gofyn i bob adran yn y Llywodraeth gyfrannu tuag at bortffolio y Gymraeg i’w wneud yn gronfa sylweddol gall y Prif Weinidog ei weithredu.

Mae angen i Bwyllgorau'r Cynulliad edrych ar wariant cyrff anstatudol megis y Consortia Addysg sy'n derbyn arian oddi wrth y Llywodraeth a Llywodraeth Leol. Mae angen i'r cyrff hynny hefyd weithredu yn ôl Safonau y Gymraeg.

**Cefndir a chefnogaeth i Dathlu'r Gymraeg**
Mae 23 o fudiadau sy'n cynrychioli y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg – Urdd, Mentrau Iaith, Merched y Wawr, UCAC, Rhag, Cymdeithas yr Iaith, Eisteddfod Genedlaethol, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac eraill yn rhan o Dathlu'r Gymraeg.

Ein nod yw Sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael defnyddio'r Gymraeg
Diogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
Neilltuo adnoddau ychwanegol i sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg.
Creu 'Cynlluniau Gweithredol' ar gyfer Strategaeth Iaith Fyw : Iaith Byw.
Gwireddu'r cerrig milltir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
Sicrhau dyfodol llewyrchus ac annibynnol i S4C.

**Yr angen i'r Llywodraeth gynyddu'r buddsoddiad i hybu'r Gymraeg.**

I gyflawni hyn mae angen cam sylweddol i roi statws a chyllid i roi cyfle teilwng i'r Gymraeg gyd-fyw ochr yn ochr â'r iaith fwyaf pwerus yn y byd.

Cred Dathlu'r Gymraeg fod angen rhagor o adnoddau i sicrhau ffyniant i'r Gymraeg dros y blynyddoedd i ddod. Hefyd dylid arallgyfeirio gwariant presennol i sicrhau cyfran deg i ddatblygu a chryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Oherwydd patrymau gwariant hanesyddol, prin yw buddsoddiad y Llywodraeth yn y Gymraeg.

Ym maes Addysg mae'r galw gan rieni am addysg Gymraeg wedi achosi Cynghorau Sir a'r Llywodraeth i ehangu'r ddarpariaeth ond heb ateb y galw yn gyfan gwbl.

Mewn meysydd eraill mae'r gwariant ar y Gymraeg yn uniongyrchol yn llai na £12m y flwyddyn o gyllideb flynyddol y Llywodraeth o dros £13.6 biliwn (2015/16).

Nodwn fod buddsoddiad llawer helaethach yn yr iaith Fasgeg, a gwelwn fod y buddsoddiad yn dwyn ffrwyth gyda chynnydd yn nifer siaradwyr yr iaith o 24% yn 1991 i 32% yn 2011.

Mae canlyniadau diweddar y Cyfrifiad yn amlygu nifer o heriau a wyneba'r iaith ond credwn fod meysydd penodol lle gellid buddsoddi a fyddai o fudd nid yn unig i'r Gymraeg ond nifer o amcanion eraill y Llywodraeth.

Nid oes unrhyw gynnydd sylweddol yn y cyllid a roddir ar gyfer Hybu'r Gymraeg ers rhai blynyddoedd. Y tro diwethaf i unrhyw gynnydd o sylwedd ddigwydd oedd yn 2002.

**Y Gymraeg yn ein Cymunedau**
Roedd y Gynhadledd Fawr yn dangos brwdfrydedd dros y Gymraeg a'r angen i weithredu.
Mae angen canolbwyntio ar

(i) Trosglwyddiant iaith rhwng rhieni a'u plant;
(ii) Defnydd plant o'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn gymdeithasol;
(iii) Cyfleoeodd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg;
(iv) Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chreu swyddi newydd a chyfleoedd cymdeithasol.

**Effaith toriadau ar ddarpariaeth Cymraeg.**
Roedd rhai o'r toriadau yng Nghyllideb 2014 - 2015 y Llywodraeth yn siom
Sylweddolwn fod y sefyllfa ariannol yn anodd ond mae rhaid gweithredu yn fuan.

Hefyd mae toriadau gan y Cynghorau Sir yn cael effaith andwyol ar wasanaethau Cymraeg yn arbennig ym maes addysg.

Mae Cynghorau Sir yn newid i roi contractau allan am wasanaethau heb roi sylw i'r Gymraeg.

**Ein dymuniad i fod yn hyderus am ddyfodol y Gymraeg**

Mae angen cynyddu gwariant a'r ddarpariaeth ar y Gymraeg

*Rydym yn galw ar y Llywodraeth i gynyddu'r gwariant ar brosiectau penodol Cymraeg, dros amser, i 1% o'r gyllideb sef tua £136 miliwn yn y flwyddyn 2015/16*

Daw rhan o'r gwariant yma drwy arallgyfeirio gwariant presennol. Hefyd galwn ar y Cynghorau Sir a chyrff statudol eraill i sicrhau fod eu holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae angen sicrhau fod tegwch i'r iaith Gymraeg wrth gyflawni holl weithgareddau a gwasanaethau y Llywodraeth.

Yr eiddoch

Penri Williams

Penri Williams

Cadeirydd
Dathlu'r Gymraeg